


GROW YOUR OWN POTATOES



Adnabod Tatws

Gwers 6: Sut mae tatws yn newid wrth eu coginio

Bydd y plant yn:

- Dysgu beth sy'n digwydd i datws pan gânt eu coginio.
Bydd angen y cynhwysion a'r offer sydd ar **Daflen Waith 11 Coginio tatws**

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant y byddwch chi'n archwilio sut mae tatws yn newid wrth eu coginio.
Gofynnwch i'r plant:

- Sut mae tatws yn edrych ar ôl iddyn nhw gael eu pilio?
- Sut maen nhw'n teimlo?
- Allwch chi fwyta tatws sydd wedi'u coginio heb eu pilio? Sut? (h.y. Tatws Newydd, Tatws Pob)
- Pa fath o datws wedi'u coginio ydych chi wedi'u bwyta?
- Sut beth yw tatws sydd wedi'u coginio, o'u cymharu â rhai amrwd?

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar **Daflen Waith 11 Coginio tatws**.

Paratowch ddigon o datws i'r plant allu gweithio mewn grwpiau gyda sampl bach o datws amrwd, tatws wedi'u berwi a thatws stwnsh i'w hastudio.

Dangoswch sut i bilio a pharatoi'r tatws, ac, os allwch chi wneud hynny'n ddiogel, coginiwch nhw yn y stafell ddosbarth fel bod y plant yn gallu gweld beth sy'n digwydd.

Dangoswch i'r plant sut maen nhw'n cael eu stwnshio.

Yn olaf, darparwch bob grŵp â sampl bach o datws amrwd, tatws wedi'u berwi a thatws wedi'u coginio.

Gwnewch yn siŵr eu bod wedi oeri digon i fod yn ddiogel ar gyfer y plant.

Tasg

5 – 7 oed

Helpwch y plant i wneud arsylwadau ar y tatws.

Anogwch nhw gyda chwestiynau fel:

- Beth sydd wedi digwydd i'r daten hon?
- Sut olwg sydd arni rŵan?
- Sut mae wedi newid?

Gyda phlant iau, gallwch gofnodi'u hatebion neu ofyn iddyn nhw dynnu llun o beth maen nhw'n ei weld.

7 – 11 oed

Gadewch i'r plant lenwi **Taflen Waith 11 Coginio tatws**.

Anogwch y plant i wneud arsylwadau gofalus drwy eu hannog gyda chwestiynau.

Crynodeb

Trafodwch y newidiadau mae'r plant wedi sylwi arnynt.

Trafodwch pa ddysglau y gellir eu creu o wahanol fathau o datws.

Dangoswch rai o'r ryseitiau o'r wefan i'r plant.

Gyda phlant hŷn, trafodwch y newidiadau i'r tatws, a ellid newid y tatws sydd wedi'u coginio yn ôl i fel roedden nhw?

Awgrymiadau...

Trefnwch sesiwn goginio gyda'r dosbarth a rhowch gynnig ar rai o'r ryseitiau tatws o'r wefan. *Dylech osgoi'r salad tatws oherwydd bydd hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn sesiwn yn nes mlaen.*

